**Y Gelynnen**

**Fy mwyn gyfeillion dewch ynghŷd**
**Mewn pryd i ganmol y glasbren,**
**Pren canmolus gweddus gwiw,**
**A'i enw yw y gelynnen.**

**Ffal di rwdl lam tam,**
**Tw li ri dl di,**
**Ta ram tam ta nam tanni.**
**Pren canmolus gweddus gwiw**
**A'i enw yw y gelynnen.**

**I ba beth y cyffelybaf hon,**
**I focsen gron neu'r ywen,**
**Neu ryw neuadd wych o blas,**
**Ond ffeind yw y las gelynnen.**

**Pe byddai hi yn law neu ôd,**
**Mi allwn fod yn llawen;**
**Neu ryw dywydd a fai'n fwy,**
**'Does dim ddaw trwy y Gelynnen.**

**Aderyn to a gafodd dŷ,**
**A cheiliog du'r fwyn fwyalchen,**
**Ac eistedd mae f'anwylyd wen**
**Tan gysgod pren y gelynnen.**